# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 18 Ionawr 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13188

## 115

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Dechreuodd yr eitem am 14.20

Gofynnwyd cwestiynau 1-7 a 9 -12. Tynnwyd cwestiwn 8 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.02

**Atebwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg**

James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei ddisgwyliadau ynghylch ei gyfarfodydd gydag undebau llafur yr athrawon yn ddiweddarach yr wythnos hon o ran osgoi cau ysgolion?

## Pwynt o Drefn

Am 15.07, cododd Heledd Fychan Bwynt o Drefn i wneud cais bod y canllawiau ar gyfer cyfarfodydd rhithiol a hybrid y pwyllgorau yn cael eu hadolygu, yn sgil penderfyniad Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn rhithiol yn hytrach na dod i'r cyfarfod y bore hwnnw, er ei bod yn bresennol ar yr Ystâd a bod y Pwyllgor wedi gofyn iddi fod yn bresennol yn yr ystafell.

Wrth ymateb i'r materion a godwyd, esboniodd y Dirprwy Weinidog ei bod wedi penderfynu cymryd rhan yn rhithiol yn y sesiwn, oherwydd bod y swyddogion a oedd yn ei chefnogi hefyd yn cymryd rhan o bell.

Dywedodd y Llywydd y byddai'n holi Fforwm y Cadeiryddion i ystyried y canllawiau presennol ar sail profiadau'r holl bwyllgorau o ran presenoldeb Gweinidogion ac Aelodau yn yr ystafell gyfarfod neu'n rhithiol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.14

Gwnaeth Sioned Williams ddatganiad am - 200 mlynedd ers genedigaeth Alfred Russel Wallace, un o naturiaethwyr gorau Prydain, a damcaniaethwr esblygiadol cynnar. (8 Ionawr).

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith - Dyfodol bysiau a threnau yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 15.16

**NDM8180** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 'Dyfodol bysiau a threnau yng Nghymru', a osodwyd ar 6 Hydref 2022.

Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Ionawr 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Ynni adnewyddadwy ar y môr

Dechreuodd yr eitem am 16.24

**NDM8183** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu y bydd defnyddio dyfroedd arfordirol Cymru yn helpu i gyflawni chwyldro mewn ynni gwyrdd ac adnewyddadwy.

2. Yn nodi bod modd creu tua 10,000 o swyddi gwyrdd a buddion ehangach.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy ar y môr yng Nghymru, gan sicrhau y darperir gweithlu â digon o sgiliau a chapasiti gweithgynhyrchu gwell.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl Plaid Cymru - Rheoli'r pwysau ar y GIG

Dechreuodd yr eitem am 17.13

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

**NDM8181** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi camreoli'r pwysau sy'n wynebu'r GIG.

2. Yn datgan argyfwng iechyd yng Nghymru.

**Cefnogwyr**

Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.09

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.10

**NDM8182** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Datblygu sector ynni hydrogen yng Nghymru

Daeth y cyfarfod i ben am 18.30

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2023**